# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2023

Amser: 09.01 - 09.25

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pwysau Gaeaf y GIG (~~30~~ 45 munud)

Gofynnodd Siân Gwenllian bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymestyn ymhellach yr amser a ddyrannwyd i'r datganiad uchod , yn sgil y pwysau a welwyd ar y GIG dros gyfnod y Nadolig. Nododd y Llywydd y byddai'n hyblyg o ran yr amseriadau er mwyn sicrhau bod modd galw nifer digonol o'r Aelodau i wneud cyfraniadau.

- Ni fydd cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.30pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn i’r amserlen:

Dydd Mawrth 24 Ionawr 2023

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gwella Ysgolion a'r Dirwedd Wybodaeth (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cyfrifiad 2021 – Canlyniadau o ran y Gymraeg (30 munud)
- Rheoliadau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 (15 munud)
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023 (15 munud)

Ystyriodd y Pwyllgor nodyn ar y strwythur ac amseriad ar gyfer gwrandawiad cyntaf dadl Ystyriaeth Gychwynnol ar Fil Cydgrynhoi – Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), sydd wedi’i hamserlennu ar gyfer dydd Mawrth 17 Ionawr.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ychwanegiadau canlynol i'r amserlen:

**Dydd Mercher 1 Chwefror 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Absenoldeb Disgyblion (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Rheoliadau at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid i graffu arnynt, a gofynnod i'r pwyllgorau adrodd erbyn dydd Llun 23 Ionawr 2023 i alluogi'r rheoliadau i gael eu hystyried gan y Senedd ddydd Mawrth 24 Ionawr 2023.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-lein a osodwyd ar 21 Rhagfyr at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm hwn a rhai blaenorol ar y Bil hwn, ar 2 Mawrth 2023;
- cyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a osodwyd ar 21 Rhagfyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm hwn a rhai blaenorol ar y Bil hwn, ar 2 Mawrth 2023;
- cyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a osodwyd ar 4 Ionawr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm hwn a rhai blaenorol ar y Bil hwn, ar 9 Mawrth 2023;

- cyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Caffael a osodwyd ar 19 Rhagfyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i graffu arno, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm hwn a rhai blaenorol ar y Bil hwn, ar 2 Mawrth 2023;

### 4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r pryderon a fynegir mewn perthynas â hwyluso amserlen Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Nododd y Llywydd ei bod wedi cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Rhagfyr a chytunodd y bydd swyddogion yn drafftio adroddiad i'r Pwyllgor Busnes yn manylu ar y gwersi a ddysgwyd o'r broses graffu ar y Bil hwn, y gellir cyfeirio atynt pe bai unrhyw gais yn y dyfodol am hwyluso amserlen i graffu ar Fil.

### 4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r pryderon a godir gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y goblygiadau posibl i'r Pwyllgor hwnnw, a busnes y Senedd, a allai godi o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a gyflwynwyd yn Senedd y DU.

Awgrymodd Darren Millar y gallai'r Pwyllgor Busnes fod am ystyried sefydlu pwyllgor ychwanegol er mwyn ymateb i bryderon ynghylch capasiti craffu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i fonitro datblygiadau a chynnal deialog gyda Llywodraeth Cymru, gan gadw pob opsiwn ar agor.

### 4.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar y Bil a chytunodd i ymateb i dderbyn y ddau argymhelliad a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Busnes.

### 4.6 Papur i'w nodi - gohebiaeth rhwng y Prif Weinidog a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch gwaith craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyrau a chytunodd i aros am ymateb pellach gan y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Cyllid cyn rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'r arfer o bleidleisio ar y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol ar gyfer Biliau ar yr un diwrnod â dadl Cyfnod 1.